Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Hafan**

**Hwlffordd**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

1 Medi 2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Hafan

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion heb nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Silver Springs Support Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 4 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 20 Medi 2022 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Nac ydy. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ o ran y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion ieithyddol a diwylliannol, o safbwynt y Gymraeg, y bobl sy'n defnyddio’r gwasanaeth neu a allai ddefnyddio’r gwasanaeth. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn cael gwasanaeth da gan dîm o weithwyr sy'n llawn cymhelliant ac sy'n cael eu harwain yn effeithiol gan reolwyr sy'n adnabod y bobl a'r tîm yn dda.
Mae’r gweithwyr a’r rheolwyr yn rhannu'r un gwerthoedd am ofal sy'n canolbwyntio ar unigolion, gydag un gweithiwr yn dweud wrthym ei fod *“i gyd amdanyn nhw”* wrth ddisgrifio'r bobl y mae’n eu cefnogi a'i waith.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi a'u hannog i fod mor annibynnol â phosibl ac i wneud pethau y maent yn eu mwynhau ac sy'n bwysig iddynt. Diwellir eu hanghenion iechyd corfforol yn effeithiol.

Mae'r gwasanaeth yn lle diogel i bobl fyw ynddo. Mae'n lân ac yn gyfforddus ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Byddai rhywfaint o waith ychwanegol ar y gerddi yn gwella'r amgylchedd ymhellach.

## Llesiant

Mae’r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn gwybod eu cyfrifoldebau i roi gwybod am unrhyw bryderon diogelu ac maent yn hyderus y byddai eu rheolwyr yn cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod y bobl yn cael eu diogelu. Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel yn byw yn y cartref ac mae gweithwyr hefyd yn teimlo'n ddiogel yn gweithio yn y gwasanaeth.

Mae'r bobl yn cael eu hannog a'u cynorthwyo i wneud dewisiadau a gwneud pethau sy'n bwysig iddyn nhw. Ysgrifennir cynlluniau gweithgareddau ond gall y bobl newid y rhain os dymunant. Mae un person yn cynllunio gwyliau a siaradodd hefyd yn frwdfrydig am deithiau y mae wedi'u cynllunio. Mae yna ymdeimlad gwirioneddol bod gweithwyr yr un mor frwdfrydig am y cyfleoedd sydd ganddynt i gefnogi'r bobl yn y gweithgareddau hyn. Treulir amser mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys gwneud pethau yn y cartref megis gwaith tŷ, sgwrsio â staff ac eraill, a chael ffrindiau draw. I ffwrdd o'r cartref, mae’r bobl yn mynd i focsio, i chwarae criced, i ddawnsio, i'r coleg, i siopa, ac i ymweld â lleoedd lleol.

Mae'r gweithwyr yn llawn cymhelliant ac yn canolbwyntio ar y rheini y maent yn eu cefnogi. Maent yn adnabod y bobl yn dda ac yn gwybod beth sy'n bwysig iddynt. Mae cofnodion gofal manwl a chyfredol yn sicrhau bod gan y staff wybodaeth gywir i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu'n briodol.

Mae lefelau bodlonrwydd o fewn y gwasanaeth yn uchel. Mae'r bobl sy'n byw yno yn canmol y rhai sy'n eu cefnogi, gan ddweud eu bod yn *“gweithio'n galed”* ac yn garedig tuag atynt. Mae’r rhyngweithio rhwng y bobl sy’n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth yn dangos pa mor hoff yw pawb o’i gilydd, a soniodd y gweithwyr am ba mor dda y mae’r tîm yn gweithio gyda’i gilydd.

Mae'r amgylchedd ffisegol yn cyfrannu at lesiant y bobl. Mae'r cartref yn gyfforddus, wedi'i addurno'n dda, ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Gellid ei wella ymhellach trwy wneud rhywfaint o waith cynnal a chadw yn y gerddi.

## Gofal a Chymorth

Mae’r gweithwyr gofal yn wybodus ac yn llawn cymhelliant i gefnogi'r bobl a'u helpu i fyw eu bywydau i'r eithaf. Dywedodd un wrthym, *“Nhw [y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth] sy'n dod gyntaf”* wrth ddisgrifio ei waith. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym, *“Dwi wedi magu perthynas glós iawn â’r bois… Dyw e ddim yn teimlo fel gwaith.”* Mae perthynas yn ystyried bod y staff yn *“drugarog”* a *“sythweledol”*.

Mae'r gweithwyr yn gallu gweld pan fydd y bobl yn sâl neu angen cymorth. Mae ganddynt wybodaeth dda am y bobl yn ogystal â beth a phwy sy'n bwysig iddynt. Mae'r gweithwyr gofal hefyd yn disgrifio cael perthynas dda iawn â theuluoedd y bobl.

Mae gan y bobl gydberthnasau da â'r rhai sy'n gofalu amdanynt. Gwelsom rywfaint o ryngweithio cadarnhaol, sy'n dangos bod cydberthynas wedi'i feithrin. Dywedodd un person wrthym pa mor galed y mae'r staff yn gweithio a dywedodd un arall pa mor dda y mae pawb yn dod ymlaen â'i gilydd. Mae'r gweithwyr gofal yn wirioneddol hoff o'r rhai y maent yn eu cefnogi ac yn disgrifio'r gwasanaeth fel eu teulu. Ategodd perthynas hyn, gan ddweud, *“Mae'r staff i weld yn hoff o A, ac mae A yn hoff iawn o'r staff.”*

Mae lefelau staffio yn ddigonol i sicrhau bod anghenion y bobl yn cael eu diwallu. Cynhelir cefnogaeth un-i-un bob amser lle bo angen. Mae'r bobl yn teimlo bod digon o weithwyr ar ddyletswydd bob amser. Mae'r gweithwyr gofal hefyd yn teimlo bod ganddynt ddigon o staff i sicrhau bod anghenion cymorth y bobl yn cael eu diwallu, yn ogystal ag iddynt gyflawni eu dyletswyddau eraill, sy'n cynnwys cadw'r cartref yn lân.

Gall y bobl wneud pethau sy'n bwysig iddynt. Mae cynlluniau cymorth yn nodi bod y bobl yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau fel nofio, mynd i'r sinema, mynd i'r coleg, a choginio. Mae cofnodion dyddiol yn rhoi tystiolaeth eu bod yn gallu gwneud y pethau hyn. Dywedodd un person ei fod yn edrych ymlaen at daith yn fuan a siaradodd yn frwdfrydig am wyliau diweddar a gafodd a gweithgareddau eraill yr oedd wedi'u gwneud. Roedd y gweithwyr gofal yr un mor frwdfrydig am eu rôl yn cefnogi a hebrwng y person i wneud y pethau hyn, a dywedodd un gweithiwr, *“Mae gweld B yn hapus yn fy ngwneud i'n hapus.”*

Mae anghenion gofal iechyd y bobl yn cael eu diwallu. Maent yn mynychu apwyntiadau arferol gyda’r deintydd ac optegydd. Gwneir atgyfeiriadau at weithwyr iechyd proffesiynol arbenigol yn ôl yr angen. Caiff pwysau'r bobl eu monitro a rhoddir meddyginiaeth yn unol â'r presgripsiynau. Mae cynlluniau gofal ar gyfer gofal y geg a rhoi meddyginiaeth yn ddiogel.

Mae dealltwriaeth o bwysigrwydd maethiant da. Mae prydau'n cael eu coginio gan ddefnyddio cynhwysion ffres ac nid oes llawer o ddibyniaeth ar fwyd wedi'i brosesu. Mae'r bobl yn dewis beth i'w fwyta ac yn helpu i baratoi prydau bwyd. Mae rhai pobl yn gwneud eu prydau eu hunain, naill ai'n annibynnol neu â rhywfaint o gymorth gan staff.

Mae cofnodion gofal yn fanwl ac yn rhoi darlun da o'r unigolion, eu hoffterau, eu hanghenion, a sut maent am i'r gweithwyr gofal eu cefnogi. Mae cofnodion dyddiol yn fanwl ac yn cynnwys gwybodaeth am hwyliau'r unigolion, sut y treuliasant eu hamser, eu hanghenion cymorth, a'r hyn y maent wedi ei fwyta.

Mae’r gweithwyr gofal yn disgrifio dull o roi cymorth sy'n canolbwyntio ar unigolion ac ategir hyn yn y cofnodion, lle mae’r gweithwyr gofal yn manylu ar y cymorth a roddir i’r bobl a'r dewisiadau a wnânt.

Dywedir bod cofnodion yn ddefnyddiol a bod gan y gweithwyr gofal ddigon o amser i'w darllen. Maent yn hyderus bod ganddynt yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt i sicrhau eu bod yn cefnogi'r bobl yn unol â'u cynlluniau cymorth, sy'n cael eu diweddaru bob tri mis neu yn dilyn unrhyw newidiadau yn anghenion y bobl.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn gwasanaeth sy'n addas i'w hanghenion. Byngalo ar wahân yw'r eiddo ac mae'r llety i gyd ar un llawr. Mae mewn ardal breswyl ac yn agos at dref fawr ac amwynderau eraill.

Mae'r ystafelloedd gwely â gwedd bersonol iddynt a dywedodd y bobl wrthym eu bod wedi dewis y lliwiau a rhai dodrefn eraill. Mae pob rhan o'r eiddo yn gyfforddus ac mewn cyflwr addurnol da. Gwneir atgyweiriadau yn brydlon. Gall y bobl symud yn rhydd ledled y cartref heb unrhyw gyfyngiadau ac mae'r cynteddau'n glir.

Mae'r swyddfa wedi'i lleoli y tu allan i'r prif eiddo ond o fewn cyrraedd hawdd iddo. Cedwir ffeiliau staff cyfrinachol yn ddiogel yn y swyddfa.

Byddai ardaloedd allanol y cartref yn elwa o rywfaint o waith cynnal a chadw gan fod y gerddi wedi gordyfu mewn mannau, ond mae hyn yn cael sylw ac roedd garddwyr ar y safle yn ystod yr arolygiad.

Mae trefniadau ar waith i leihau'r risgiau i iechyd a diogelwch. Mae cofnodion yn dangos bod y gwiriadau diogelwch nwy a thân yn gyfredol.  Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel yn byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth. Mae'n ofynnol i ymwelwyr fewngofnodi mewn llyfr ymwelwyr a dangos tystiolaeth o ddilyn canllawiau cyfredol Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu cadarn ar waith i fonitro ansawdd. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cynnal ymweliadau Rheoliad 73 ac mae'r adroddiadau'n dangos bod ystod o feysydd yn cael eu hystyried, gan gynnwys hyfforddiant staff, cofnodion, yr amgylchedd, a threulio amser gyda phobl. Yn ogystal, mae uwch-reolwr yn cynnal hapwiriadau. Mae cofnodion o'r rhain yn dangos meysydd a godwyd yn ystod yr ymweliadau monitro ansawdd hyn yn cael eu trafod yn y cyfarfodydd staff.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan weithwyr gofal sy'n wybodus ac sy'n ystyried eu bod wedi'u hyfforddi'n briodol. Nid oes matrics hyfforddi ond mae tystysgrifau'n dangos bod gweithwyr wedi cwblhau hyfforddiant mewn ystod o feysydd ac yn dweud na ofynnir iddynt wneud unrhyw beth nad ydynt yn teimlo'n fedrus nac yn gymwys i'w wneud. Mae'r gweithwyr yn gallu cael hyfforddiant ychwanegol os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae perthnasau yn ystyried bod y gweithwyr gofal yn fedrus ac wedi'u hyfforddi'n addas.

Mae goruchwyliaeth yn cael ei chyflawni'n fras yn unol â'r rheoliadau. Dywedodd un gweithiwr wrthym, *"Mae'r rheolwr yn graff iawn"* wrth ddisgrifio'r broses oruchwylio. Mae'r gweithwyr gofal yn cael adborth i'w helpu i ddatblygu. Mae'r gweithwyr gofal yn gallu codi unrhyw syniadau neu bryderon sydd ganddynt ac maent yn hyderus y bydd rhywun yn gwrando arnynt ac y byddant yn cael ymateb defnyddiol.

Caiff y gweithwyr eu penodi yn dilyn proses recriwtio ddiogel. Cynhelir gwiriadau a chaffaelir geirdaon. Cynhelir asesiadau risg os oes angen a cheir cyfnod sefydlu i sicrhau bod gan y gweithiwr y gwerthoedd cywir ar gyfer y gwasanaeth. Mae ffeiliau staff yn hawdd i'w llywio.

| Crynodeb o'r diffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i’r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i’r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae’n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio’r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 29/09/2022